

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN

Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd 21, 2023 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanfachreth.cymru

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 17, 2023.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 17, 2023.

Eitem 11.c. Rhoddwyd gwybod (18/10/2023) i Adrian Williams, Priffyrdd iddo gysylltu â Cefnffyrdd am y fordd A494 yn rhoi wrth Pont y Ffatri, Rhydymain. Dywedodd roedd Cefnffyrdd yn gwybod am y mater tua pythefnos yn ôl.

Llythyr ateb (20/10/2023) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod fod trefniant mewn lle i wneud gwaith adfer i'r diffyg sy'n bodoli yn y lleoliad. Maent yn disgwyl cadarnhad o'r dyddiad gan eu contractwr ac yn y cyfamser wedi gosod arwyddion i hysbysu teithwyr o'r ffordd anwastad.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd gwybod (26/10/2023) gan Emlyn mae goleuadau traffig wedi cael eu rhoi ar y ffordd ble mae'r gwendid yn amlwg. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau.

Llythyr ateb (31/10/2023) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod fod trefniant mewn lle i dyllu'r ffordd ger Pont Ffatri i ddarganfod beth yn union yw'r broblem i wneud gwaith atgyweirio addas. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn 3/11/2023.

Eitem 9.a. 2. Tynnwyd i lawr hysbysiad cwblhau archwiliad 2022 – 2023 a Ffurflen Blyneddol oddi ar ein gwefan (2/11/2023). Roeddynt wedi cael eu harddangos am 14 diwrnod fel roedd angen. Diolch i Elfed ap Gomer am wneud y gwaith.

Eitem 11. ch. Llythyr ateb (9/11/2023) oddi wrth Arweinydd Tim Mynediad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod

5. bydd contractwr yn symud y goeden. Mae'r goden ar lwybr march.

3. Beicio ‘Traws Eryri’ - Cycle UK mewn cydweithrediad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gyfrifol am y llwybr. Cafodd Cyngor Gwynedd cyfarfod gyda CNC a rhoddwyd gwybod i CNC iddynt i ymgynghori gyda cymunedau a thirfeddianwyr perthnasol. Yn ogystal fe fynegwyd pryder am addasrwydd rhai rhannau o’r trywydd ar gyfer defnydd mwy dwys a allai ddigwydd yn sgil ei hyrwyddo. Mae mwy o fanylion ar gyfer y trywydd yma ar <https://www.cyclinguk.org/traws-eryri> a <https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/traws-eryri-new-200km-cycling-route-launched-in-north-wales-1/?lang=cy>
Manylion cyswllt ar gyfer Cycling UK : <https://www.cyclinguk.org/contact>
Mr John Taylor oedd yn arwain ar y mater o ochr Cyfoeth Naturiol Cymru:
Mr John H. Taylor, Arweinydd Tîm Hamdden, Gweithrediadau Gogledd Orllewin Cymru. Rhif ffôn: 03000655049, Ffôn symudol: 07919393717
john.h.taylor@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Eitem 6. h. Llythyr (13/11/2023) oddi wrth Tim Tacluso ‘Ardal Ni’, Cyngor Gwynedd yn cynnwys lluniau o’r gwaith maent wedi ei wneud yn y gymuned.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

Eitem 11. a., b. Llythyr ateb (15/11/2023) oddi wrth Mr Dylan Erfyl Davies, YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy), Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae’n barod i gyfarfod ni ar y safle ynglŷn â bont droed wrth Dyddyn Du, y gwaith cryfhau'r ffordd ar Lon Lefel a hefyd dŵr wrth Bont Hermon ar ddiwrnod sy’n gyfleus i ni. Nid yw ar gael ar ddydd Mawrth pob wythnos.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (17/10/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafndiaeth dros dro o Ffordd Dosbarth III i Fferm Nannau. Bydd y ffordd ar gau ar 17/10/2023 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i’r aelodau.

b. Llythyr (23/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) ar 8/11/2023.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

c. Llythyr (30/10/2023) oddi wrth SCCH Paula Stewart (Heddlu Gogledd Cymru, Gorsaf Heddlu Porthmadog) pwy sy’n rhan o Dim ‘Dangos y Drws i Drosedd’. Bydd y Tim yn gweithio gyda sefydliadau busnes iddynt ddefnyddio ‘SMART WATER’ i farcio eiddo i leihau troseddau. Mae taflenni a sticeri ar gael am bris. .

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

ch. Llythyr (1/11/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (8/11/2023) oddi wrth RAF Benson yn holi os mae gwybodaeth am gofeb i griw awyr oedd yn hedfan y Mosquito cwmpodd yn ardal Rhydymain yn 1944. Maent angen dod i weld y gofeb, y safle disgynodd yr awyren, a'r injan Mosquito arall sydd mewn sied fferm.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau yn holi oes mae ganddynt wybodaeth ar y mater.

Anfonwyd y wybodaeth (12/11/2023) oedd angen RAF Benson a diolch i Emlyn am y wybodaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/462. Gwaith atgyweirio i drac gan gynnwys gwaith hanfodol i wal gynnal trac drwy osod wal gynnal gerrig sych draddodiadol yn lle basgedi caergawell wedi'u tanseilio. Llyn Cynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/11/2023).

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (24/10/2023) oddi wrth Theatr Bara Caws. Maent angen cymorth ariannol.

b. Llythyrau (27/10/2023 a 1/11/2023) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyrau ynghlŷn â lwfansau i gynghorwyr cynghorau cymuned a thref – trefniadau gweithio gartref a nwyddau traul.

Yn unol ag [adran 316A o Ddeddf Treth Incwm \(Enillion a Phensiynau\) 2003](#) nid oes atebolrwydd i dalu treth incwm mewn cysylltiad â thaliad a wneir i gynghorwr mewn perthynas â threuliau aelwyd mae'r cynghorwr yn ei gyflawni yn ei gartref o dan drefniadau gweithio gartref. Dim ond i'r taliad o £156 a wneir yn unol â Phenderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y mae'r eithrio yn gymwys.

Mae rhaid i'r cynghorwr:

1. cael trefniant ffurfiol gyda'r Cyngor Cymuned a Thref.
2. datgan ei fod yn gweithio gartref yn rheolaidd o dan y trefniadau (amgáu mae llythyr templed ei ddefnyddio).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyrau (27/10/2023) oddi wrth Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd ynghlŷn â bil treth annomestig cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 a 2023/24 i Public Convenience Rhydymain. Does dim swm sy'n daladwy.

ch. Llythyr (7/11/2023) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i weithwyr am y cyfnod 2023/24.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc yw £11.84 x 18awr x 12mis = £2,557.44 y flwyddyn, ar SCP8. Taliad misol i'r Clerc: £170.50; taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £42.62.

Mae pwynt SCP8 wedi newid i £12.84 yr awr ddyddiedig o Ebrill 1, 2023.

d. Llythyr (14/11/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2024-25. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 o dan adran 137 (1) a (3) £10.81 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £10.81 x 603 = £6,518.343.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/10/2023: £1,157.84.

Balans yn y banc ar 29/10/2023: £14,398.36 (29/10/2022: £12,791.01).

9. Archwilio

10. Adroddiad Cyngorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (30/10/2023) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd ynglŷn â chyflymder yn ardal Seren Fach, Brithdir. Mae'n rhoi gwybod mae nifer o arwyddion a marciau ffordd yn codi ymwybyddiaeth gyrrwyr i ddyluniant y ffordd. Mae rhaid disgwyl i ganllawiau newydd Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru dod i rym yn hydref 2024. Dros y 5 mlynedd diwethaf nid oes damweiniau wedi ei amlinellu yn y lleoliad sydd yn peri pryder. Nid oes gan y Gwasanaeth arian wedi ei neilltuo i adeiladu llwybrau troed heblaw am gynlluniau Teithio Llesol. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (30/150/2023) oddi wrth Rhun yn rhoi gwybod nid yw'n cytuno gyda sylwadau'r Gwasanaeth ac yn cynnwys lluniau i ddangos hyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd y lluniau i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (31/10/2023) a gofynwyd am adroddiad.

11. Materion yr Aelodau

a. Llythyr (16/11/2023) oddi wrth Rhu:

Mae llawer o bobl yn bryderus iawn am godiadau yn y dreth cyngor mae Gwynedd yn bwriadu ein taro efo yn ol bob son. Mae Meirionnydd yn un o'r ardaloedd tlofaf yn Ewrop ac yn sicr o fewn y DU. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad Cyngor Gwynedd ei hunain ac y Parc Eryri sydd yn gwneud dim ond yn ein cadw i lawr heb gynnig iawndal o unrhyw werth.

Ateb Cyngor Gwynedd i bob blerwch a incompetence ydi gwasgu'r werin bobl fwy a fwy am bres tra yn cyflawni llai a llai o service i'r bobol. Mae Peredur pan yn gynghorwr yn deud mae'r lovely pensions sydd yn mynd a'r pres i gyd ond dydw i ddim yn siwr am hyn, wedi'r cyfan roedd pensiwn yn bodoli 30 mlwyddyn yn nŵl pan roedd y lori ludw yn dod rownd bob wythnos, pob un toilet cyhoeddus ar agor ac ysgolion gwladol bach llewyrchus yn bodoli.

Mae angen rhywun i adael Caernarfon wybod nad ydi'r pres genym i'w gadw yn y byd elitaidd maent wedi dod i arfer efo sydd yn fyd i ffwrdd o'r gwirionedd ar y llawr yn gefn gwlad Meirionnydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc